

SL(6)330 – Gorchymyn Datblygu Arbennig Cynllunio Gwlad a Thref (Safle Rheoli ar y Ffin Gogledd Cymru) (Ymadael â'r UE) 2023

Cefndir a diben

Mae adrannau 59 a 60 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn datblygu arbennig sy'n rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad a bennir yn y Gorchymyn.

Mae'r Gorchymyn datblygu arbennig hwn yn rhoi caniatâd cynllunio (yn ddarostyngedig i amodau) ar gyfer adeiladu a gweithredu safle rheoli ffiniau mewndirol ar gyfer Porthladd Caergybi a mannau parcio ychwanegol ar gyfer hyd at 60 o gerbydau nwyddau trwm ar Lain 9, Parc Cybi, Caergybi.

Mae'r Gorchymyn yn gosod terfynau ar faint a ffurf ffisegol cyfleusterau rheoli ffiniau a mannau parcio cerbydau nwyddau trwm y gall Llywodraeth Cymru ac adrannau ffiniau eu darparu ar y safle. Mae hefyd yn gofyn am adeiladu a gweithredu mesurau lliniaru.

Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Gorchymyn gan Weinidogion Cymru cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Gorchymyn o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'i gosodwyd gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg

Ceir croesgyfeiriad anghyson rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg ym mharagraff 31(3) o'r Atodlen. Mae'r testun Saesneg yn cyfeirio at baragraff 17(2) ond mae'r testun Cymraeg yn cyfeirio at baragraff 16(2). Ymddengys fod y fersiwn Saesneg yn gywir ar sail cyd-destun y darpariaethau perthnasol (mesurau lliniaru sŵn).

Rhinweddau: craffu



Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Nodir mai prin yw'r math hwn o orchymyn – lle mae Gweinidogion Cymru yn gweithredu fel awdurdod cynllunio ac yn rhoi caniatâd cynllunio uniongyrchol ar gyfer datblygiad penodol, yn hytrach na gadael hyn i'r awdurdod lleol. Ymddengys mai dyma'r tro cyntaf i Weinidogion Cymru arfer y pŵer yn adran 59 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn y modd yma.

Nodir hefyd nad yw'r gofynion ymgynghori arferol ynghylch ceisiadau am ganiatâd cynllunio yn ymwneud â chaniatâd a roddir drwy orchymyn o'r fath. Yn ôl paragraff 5.1 o'r Memorandwm Esboniadol, "*Cynhaliwyd ymgynghoriad yn gymesur â'r hyn a fyddai wedi'i wneud argyfer cais cynllunio*".

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â phwynt un.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 20 Mawrth 2023 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

